PARRY, JOHN (1770 - 1820), bardd

Enw: John Parry
Dyddiad geni: 1770
Dyddiad marw: 1820
Priod: Elsbeth Parry (née Huws)
Rhiant: Catherine Parry
Rhiant: Edward Parry
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Hywel David Emanuel

Ganwyd 29 Mehefin 1770 mewn fferm o'r enw Y Wern, ger Llanelian, sir Ddinbych. Ef efallai yw'r John Parry, mab Edward a Catherine Parry, y nodir ei fedyddio ar 31 Awst 1770 yng nghopïau cofrestri plwyf Llanelian. Derbyniodd addysg dda, fel y mae'n amlwg oddi wrth ansawdd ei farddoniaeth. Pan oedd yn 28 oed, priododd ag Elsbeth Huws, Ffermnant, Llanelian, ac ar un adeg cadwai ef a'i wraig westy yn y pentref. Bu farw 25 Mehefin 1820, a chladdwyd ef ar y 28 o'r un mis ym mynwent y plwyf. Cyfansoddodd gryn dipyn o farddoniaeth, o natur grefyddol gan mwyaf, ac yr oedd yn enwog am ei atebion ffraeth. Ceir detholiad o'i weithiau yn *Y Wenynen Bach* a olygwyd gan Robert Humphreys (ail arg., Llanrwst, 1840). Ei gân fwyaf adnabyddus yw ' Myfyrdod Mewn Mynwent,' cerdd nid annhebyg mewn mannau i ' Elegy written in a Country Church-yard ' Thomas Gray.

Awdur

Hywel David Emanuel, (1921 - 1970)

Ffynonellau

Y Geninen, Ionawr 1893, 56-8; 1904, 72

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870), 809

Owen Williams, *Awduron Sir Ddinbych a'u gweithiau* (1937), Rhan 3, 136

Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries (1898), 366

cofrestri'r Eglwys yng Nghymru (yn Ll.G.C.)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20738110

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu